

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler,
Ben Callard, John Crook, Tony Easson, Steven Garratt,
Su McConnell, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley,
Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Craig O'Connor	Pennaeth Cynllunio
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Joanne Chase	Solicitor
Paige Moseley	Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democraidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Meirion Howells

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 6 Rhagfyr 2002 eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

3. Cais DM/2020/00762 – Cais cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd y ganolfan ymwelwyr yn Llandegfedd, i alluogi defnyddio'r adeilad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau ac i ymestyn yr oriau agor a gymeradwywyd gan ganiatâd cynllunio DC/2012/00442. Canolfan Ymwelwyr, Canolfan Ymwelwyr Llandegfedd, Heol Croes-gweddyn, Coed-y-Paen, Sir Fynwy.

Fe wnaethom ystyried adroddiad ceisiadau DM/2020/00762 a DM/2020/00763 ynghyd â gohebiaeth hwyr, a gyflwynwyd dros wrthod y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiadau.

Cyflwynwyd ceisiadau DM/2020/00762 a DM/2020/00763 i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Tachwedd 2022 gydag argymhelliad ar gyfer cymeradwyaeth gydag amodau. Fodd bynnag,

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

roedd y Pwyllgor Cynllunio o blaid gwrthod y ddau gais ac iddynt gael eu hailgyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol gyda rhesymau priodol dros wrthod.

Amlinellodd yr Aelod Lleol dros Langybi Fawr, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau dilynol:

- Nid yw'r diwygiadau i'r cais a wnaed gan Dŵr Cymru yn sicrhau integriti'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Ni chafodd unrhyw newid sylweddol eu gwneud.
- Ni chafodd y digwyddiadau ac agwedd partïon y cais eu dileu.
- Cafodd nifer y gwesteion mewn digwyddiad ei ostwng i 70. Fodd bynnag byddai angen i'r Ganolfan Ymwelwyr gydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân sydd ond yn caniatáu 70 o westeion ar sail diogelwch.
- Mynegodd yr Aelod Lleol bryder am nifer y digwyddiadau, sef chwech ym mhob cais, a fyddai'n gyfystyr â chyfanswm o 12 digwyddiad y flwyddyn. Ystyriwyd bod y diwygiad yn amwys a gofynnwyd am eglurdeb os oedd hyn yn cyfeirio at ddigwyddiadau dan do neu awyr agored yn ogystal â'r 28 digwyddiad awyr agored y gellir eu cynnal drwy ddatblygiad a ganiateir.
- Nid yw Dŵr Cymru wedi dweud os y cynhelir y digwyddiadau hyn yn y ganolfan chwaraeon dŵr yn ystod y tymor caeedig.
- Dan ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, dylai llwybrau troed barhau ar gau yn ystod y tymor cau gaeafu adar, a fyddai felly yn ei gwneud yn anodd i bobl gael mynediad i'r ganolfan chwaraeon dŵr. Gallai fod angen goleuadau ar hyd llwybrau troed ond nid oes unrhyw wybodaeth am y mater hwn yn y cynllun rheoli. Os felly, dylai Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Fynwy gynnal arolwg i asesu effaith bioamrywiaeth y safleoedd.
- Nid yw Dŵr Cymru wedi cyfarch pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru o fis Medi 2020.
- Mae angen i'r Pwyllgor Cynllunio sicrhau na chaiff yr SSSI ei roi mewn risg.
- Caiff y ganolfan chwaraeon dŵr ei defnyddio'n bennaf ar gyfer cyfarfodydd busnes, grwpiau chwaraeon, ymweliadau ysgol a digwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer grwpiau bywyd gwyllt ac amgylcheddol. Mynegwyd pryder y gofynnir am ganiatâd i ymestyn yr oriau agor o 6.00am i ganol nos. Ystyriwyd y byddai'r caniatâd presennol yn ddigon ar gyfer y digwyddiadau cymunedol y mae Dŵr Cymru yn dweud eu bod yn dymuno eu cael. Byddai ymestyn yr oriau agor tan 11.00pm gyda staff i adael y safle erbyn 12.00am yn awgrymu y ceisir caniatâd i'r safle SSSI ddod yn safle parti fydd yn cael effaith niweidiol ar fywyd gwyllt. Ystyriwyd nad oedd y ceisiadau hyn yn cydymffurfio gyda Pholisi Cynllunio Cymru.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

- Dyfynnodd yr Aelod Lleol lythyr Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd, yn dilyn COP15 at bob Pennaeth Cynllunio dyddiedig 20 Rhagfyr 2022.
- Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cynllunio gadw at ei benderfyniad gwreiddiol i wrthod y ddau gais.
- Mynegwyd pryder am ddefnyddio'r orielau fel ardal gorlenwi yn ystod y tymor cau, 1 Hydref – 29 Chwefror. Ystyriwyd na ddylai hyn ddigwydd gan y bydd yn cael effaith negyddol ar adar sy'n gaeafu.
- Derbyniwyd 380 gwrthwynebiad a deiseb yn cynnwys 181 llofnod yn gwrthwynebu'r cais.
- Mae gohebiaeth hwyr yn amlinellu argymhellion dros wrthod gan nifer o bartïon â diddordeb.
- Gofynnwyd am eglurdeb am amodau parthed arllwysiad golau o'r Ganolfan Ymwelwyr.

Mynychodd yr Aelod Lleol dros Llanbadog a Brynbuga y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau dilynol:

- Ar ôl adolygu penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ym mis Tachwedd 2022 yng nghyswllt y ddau gais ac astudio'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw, roedd yr Aelod Lleol yn cytuno gyda phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i wrthod y ceisiadau.
- Roedd y gronfa ddŵr yno cyn i'r adeiladau cael eu codi ar y safle. Ystyriwyd felly y dylai'r statws SSSI barhau.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi codi pryderon..
- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Chymdeithas Ornitholegol Gwent wedi cynhyrchu adroddiadau yn dangos y gwallau yn yr astudiaethau a gynhaliwyd.
- Mae ecolegydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cyflwyno gwrthwynebiad dal i'r ceisiadau. Cafwyd gwrthwynebiadau hefyd gan Gyngor Cymuned Llanbadog, Cyngor Cymuned Llangybi Fawr, Cymdeithas Ddinesig Brynbuga a Chymdeithas Preswylwyr Coed y Paen, yn ogystal â derbyn deisebau a gwrthwynebiadau niferus gan y cyhoedd.
- Ystyriwyd bod y ffactorau lliniaru a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru yn annigonol i ganiatáu cymeradwyo'r ceisiadau.
- Y flaenoriaeth yw cadw ac integriti y statws SSSI.
- Gofynnodd yr Aelod Lleol i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried gwrthod y ceisiadau.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

Ar ôl ystyried adroddiadau y ceisiadau a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Gellid cynnal y digwyddiadau a gynigir mewn lleoliadau eraill gerllaw a fyddai'n fwy addas ar gyfer cynnal digwyddiadau o'r fath.
- Mae cadw'r bywyd gwyllt a statws SSSI yn allweddol.
- Bydd cyfanswm o 12 digwyddiad i gyd, sy'n gyfystyr â chynnal chwe digwyddiad mewnol ym mhob adeilad dros gyfnod o un flwyddyn galendr. Gellir cynnal y digwyddiadau manwl drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys yn ystod y cyfnod gaeafu. Yn ychwanegol, bydd 12 digwyddiad allanol na all ond digwydd y tu fas i'r cyfnod gaeafu. Cynhelir y digwyddiadau allanol rhwng 7.30am a 5.00pm. Rhoddwyd amod ar gyfer digwyddiadau mewnol (amod 9) lle na fydd unrhyw ddigwyddiad yn gorffen yn hwyrach na 11.00pm.
- Caiff y digwyddiadau eu diffinio yn y Cynllun Rheoli.
- Pe cymeradwyd y ceisiadau, gwnaed cais i ddraenogod gael eu hychwanegu at amod 5 yr adroddiadau.
- Mae cyfnod prysuraf y safleoedd yn ystod y misoedd haf, pan nad yw adar yn gaeafu.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir F. Bromfield a'i eilio gan y Cynghorydd Sir M. Powell bod ceisiadau DM/2020/00762 a DM/2020/00763 yn cael eu gwrthod am y rheswm dilynol:

Ni ddangoswyd y byddai'r cynnig i ymestyn yr ystod defnyddiau yr adeilad a'r oriau gweithredu yn cael effaith niweidiol ar SSSI Cronfa Ddŵr Llandegfedd a ddynodwyd ar gyfer adar dŵr yn gaeafu. Mae'r datblygiad felly yn gwrthdaro gyda Pholisi Cynllun Datblygu Lleol NE1.

Cofnodwyd y pleidleisiau dilynol pan roddwyd y mater i bleidlais.

Cais DM/2020/00762

Cytuno i wrthod y cais	-	10
Anghytuno i wrthod y cais	-	1
Ymatal	-	1

Pasiwyd y cynnig.

Cais DM/2020/00763

Cytuno i wrthod y cais	-	11
Anghytuno i wrthod y cais	-	0
Ymatal	-	2

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd gwrthod ceisiadau DM/2020/00762 a DM/2020/00763 am y rheswm dilynol:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

Ni ddangoswyd y bydd y cynnig i ymestyn ystod defnyddiau yr adeilad a'r oriau gweithredu yn cael effaith niweidiol ar SSSI Llandegfedd a ddynodwyd ar gyfer adar dŵr yn gaeafu. Mae'r datblygiad felly yn gwrthdaro gyda Pholisi NE1 y Cynllun Datblygu Lleol.

4. Cais DM/2021/00036 – Cynnig am swyddfa, derbynfa, siop ac annedd rheolwr. Tir i'r de o Alice Springs, Kemeys Road, Kemeys Commander, Brynbuga, Sir Fynwy.

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais ynghyd â gohebiaeth hwyr a gyflwynwyd ar gyfer ei wrthod am y rheswm a amlinellir yn yr adroddiad.

Mynychodd yr Aelod Lleol dros Gobion Fawr y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau dilynol:

- Mae'r busnes presennol yn gwella'r ardal sy'n ceisio denu twristiaeth o bell.
- Mae'r busnes yn anelu i gael graddiad pum seren ac yn derbyn adolygiadau rhagorol gan westeion.
- Bydd ymwelwyr yn cyfrannu at yr economi lleol drwy ymweld â bwytaï, tafarndai a siopau lleol, yn ogystal â chyfleusterau twristiaeth.
- Datblygu cynnig moethus i dwristiaid sydd angen lefelau priodol o wasanaeth a gouchwyliaeth.
- Mae'r busnes yn fenter amrywiol yn gysylltiedig gyda busnes ffermio lleol fwy na dwy filltir i ffwrdd. Caiff yr holl staff presennol sy'n gysylltiedig gyda'r fferm eu cyflogi ar y fferm. Y bwriad yw i'r busnes llety gwyliau yn Alice Springs gael ei weithredu gan weithwyr arbenigol gyda sgiliau uchel.
- Nid yw'n realistig bellach i wasanaethu'r gwesteion o leoliad o bell ar fferm ddwy filltir i ffwrdd. Mae angen cefnogaeth 24 awr ar y safle ar gyfer gwesteion a all gyrraedd ar wahanol adegau yn ystod y dydd neu gyda'r nos.
- Mae pryder dros oedolion oedrannus a gwesteion gydag anabledau a all fod angen cymorth pan fyddant yn cyrraedd yn ystod eu harhosiad. Gallai gwesteion fynd yn wael neu gael damwain pan nad oes staff ar y safle.
- Mae'r safle angen annedd Rheolwr i alluogi presenoldeb parhaus rheolwr profiadol gyda sgiliau priodol yn cynnwys hyfforddiant cymorth cyntaf. Gyda'r potensial i gael 64 o westeion ar y safle, ni ystyriwyd ei bod yn afresymol cael presenoldeb 24 awr ar y safle. Byddai'n anodd i staff ar fferm ddwy filltir i ffwrdd i ddarparu gwasanaeth o'r fath gyda'r sgiliau rheoli sydd eu hangen ar gyfer y busnes llety gwyliau.
- Byddai'r rheolwr llawn-amser yn weithiwr proffesiynol profiadol ac mae'n debyg y byddai ganddo/ganddi deulu a phartner hefyd yn cael eu cyflogi ar y safle.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

- Mae'r Cyngor yn derbyn fod hwn yn fusnes hyfyw hirdymor a bod angen llanw argyfwng. Mae'r Cyngor yn croesawu'r llety gwyliau ac yn cydnabod y byddai annedd rheolwr yn rhoi rheolaeth effeithlon.
- Yr unig fater a gyflwynwyd dros wrthod y cais yw y gallai'r safle gael ei rheoli gan staff ar y fferm ddwy filltir i ffwrdd. Gwnaed awgrym am gael gofalwr nos i gyflawni anghenion llanw argyfwng. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cydnabod gofynion rhedeg a chefnogi llety twristiaeth ansawdd uchel ar gyfer hyd at 64 o westeion.
- Awgrymwyd y gellid defnyddio un o'r llety gwyliau i letya'r Rheolwr arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r Rheolwr yn debygol i fod â phartner ac efallai blant angen ailwampio dau lety gwyliau gyda cholled sylweddol o incwm i'r safle.
- Mae'r busnes angen presenoldeb rheolwr profiadol 24-awr ar y safle gydag annedd rheolwr priodol ar y safle gyda lle i bartner a theulu.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Mynegodd rhai Aelodau gefnogaeth i'r cais. Byddai cael Rheolwr llawn-amser ar y safle yn fanteisiol i'r busnes a gwesteion. Byddai'n anymarferol i staff ar y fferm ofalu am westeion o dros ddwy filltir i ffwrdd gan y byddai'n mynd â nhw ymaith o'u prif waith yn ogystal â golygu y byddai angen iddynt wneud dyletswyddau nad ydynt wedi eu hyfforddi ar eu cyfer.
- Cafodd y safle ei adeiladu i safon uchel gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd yn gydnaws gyda hyn. Ystyriwyd y byddai'r adeilad newydd yn gydnaws gyda'r busnes presennol. Byddai cael adeilad mwy yn apelio at ystod ehangach o bobl gyda theuluoedd i wneud cais am swydd rheoli. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw adeiladau cyfagos.
- Croesawyd argymhelliad y swyddog am amod i atal yr annedd rhag dod yn adeilad preswyl. Byddai'r annedd a gynigid yn ddatblygiad naturiol ar gyfer y busnes gan roi sicrwydd i westeion.
- Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan yr Adran Priffyrdd.
- Byddai siop ar y safle yn gostwng faint o deithiau car oedd eu hangen.
- Oherwydd lleoliad y safle ni fydd unrhyw effeithiau niweidiol ar fusnesau eraill yn yr ardal.
- Ystyriai rhai Aelodau fod y cais yn cydymffurfio gyda TAN 6 a bod yr ymgeisydd wedi dynodi'r angen am reolwr llawn-amser ar y safle.
- Mynegwyd pryder ei bod wedi cymryd dwy flynedd i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

- Os cymeradwyir y cais, byddai angen amod i glymu'r annedd arfaethedig gyda'r busnes.
- Mynegodd Aelodau eraill eu cefnogaeth dros argymhelliad y swyddog i wrthod y cais.
- Mae nifer o dai yn lleol yn agos at y safle lle gallai rheolwr fyw.
- Llety gwyliau ac nid gwesty yw'r busnes. Ystyriwyd nad oedd unrhyw ofyniad i godi tŷ pedair ystafell wely drws nesaf i lety gwyliau yng nghefn gwlad.
- Byddai'n afresymol i un person roi cefnogaeth 24 awr.

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio yr wybodaeth ddilynol i'r Pwyllgor:

- Er mwyn codi annedd newydd yng nghefn gwlad mae'n rhaid fod digon o dystiolaeth o fewn y cais drwy TAN 6. Mae'n rhaid diwallu prawf swyddogaethol a gofynion ariannol i godi'r annedd.
- Mae swyddogion wedi adolygu'r cais gydag ymgynghorwyr allanol ac yn llwyr gefnogi'r busnes wrth ddatblygu a hyrwyddo'r adfywio economaidd i Sir Fynwy ond daethant i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth drwy TAN 6 ar gyfer codi'r annedd pedair ystafell wely ar y safle hwn mewn cefn gwlad agored. Ni chafodd angen swyddogaethol ar gyfer yr annedd ei sefydlu .

Dywedodd y Rheolwr Ardal Rheoli Datblygu wrth y Pwyllgor bod:

- Mae twristiaeth yn rhan hanfodol o economi Sir Fynwy. Fodd bynnag, mae'r profion p'un ai oes angen i weithiwr cyflogedig fyw ar y safle i reoli'r fenter twristiaeth yn fater ar wahân. Ni chafodd yr holl brofion eu diwallu i alluogi codi annedd yng nghefn gwlad.
- Gall gwesteion sy'n cyrraedd gael eu rheoli gan weithiwr neilltuol o'r busnes ond nid oes unrhyw ofyniad iddynt byw ar y safle.
- Mae hwn yn llety gwyliau ar gyfer pob oed ac nid yw'n benodol ar gyfer ei ddefnyddio gan bobl dros 50.
- Gallai staff yn gweithio shifftiau fod ar gael i ymdrin ag unrhyw broblemau a allai godi yn y llety gwyliau heb fod angen i neb fyw ar y safle.
- Ni ystyrir bod ffosffadau yn y safle yn niweidiol. Byddai angen Corff Cymeradwyo Draeniad Cynaliadwy (SAB) drwy broses ar wahân i'r cais.

Rhoddodd yr Aelod Lleol grynodeb fel sy'n dilyn:

- Mae angen i'r Awdurdod ddangos cefnogaeth ar gyfer busnesau lleol a buddsoddwyr yn y busnesau hynny i ddatblygu mewn ffordd resymol.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

- Mae angen dealltwriaeth o'r angen i rywun fod ar y safle.
- Nid mater i'r awdurdod lleol yw dweud wrth reolwr/perchennog sut i redeg eu busnes yn llwyddiannus.
- I'r busnes weithredu mae angen i rywun fod yn byw ar y safle. Gallai hyn fod yn gwpl, efallai gyda phlant. Dyma'r rhesymeg dros gael adeilad gyda phedair ystafell wely.
- Mae'r ymgeisydd wedi buddsoddi yn helaeth ac yn gwybod sut mae angen i'r busnes weithredu.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir B. Callard a'i eilio gan y Cynghorydd Sir J. Butler y dylid gwrthodi cais DM/2021/00036 am y rheswm dilynol:

Ni ddangoswyd yn rhesymol fod yr Annedd Menter Wledig arfaethedig yn diwallu profion Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010). Nid oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai angen i weithiwr newydd fod yn byw ar safle'r fflatiau ac na allai'r safle gael ei reoli'n ddigonol gan rywun yn byw'n agos neu gan fwy nag un person yn gweithio mewn shifftiau.

Pan roddwyd y mater i' bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

Cytuno i wrthod y cais	-	10
Anghytuno i wrthod y cais	-	3
Ymatal	-	0

Pasiwyd y cynnig.

Penderfynwyd gwrthod cais DM/2021/00036 am y rheswm dilynol:

Ni ddangoswyd yn rhesymol fod yr Annedd Menter Wledig arfaethedig yn diwallu profion Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010). Nid oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai angen i weithiwr newydd fyw ar safle'r fflatiau ac na fedrai'r safle gael ei reoli'n ddigonol gan rywun yn byw'n agos neu gan fwy nag un person yn gweithio mewn shifftiau.

5. ER GWYBODAETH – Yr Arolygiaeth Cynllunio – Penderfyniadau Apeliadau a gafwyd

5.1. 60 Old Barn Way, Y Fenni.

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio yn cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn 60 Old Barn Way, Y Fenni ar 30 Tachwedd 2022.

Nodwyd y cafodd yr apêl ei gwrthod.

5.2. Arosfa, Llanfair Iscoed, Cas-gwent.

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Arosfa Llanfair, Iscoed, Cas-gwent ar 30 Tachwedd 2022.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mercher, 11eg Ionawr, 2023, 2.00 pm

Nodwyd y caniatwyd yr apêl ac y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad blaen un llawr yn Arosfa, Llanfair Iscoed, Cas-gwent NP16 6LY yn unol gyda thelerau'r cais, Cyf. DM/2022/00696, dyddiedig 09 Mai 2022, gydag amodau.

5.3. The Cotlands, Beacon Road, Tryleg.

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn The Cotlands, Beacon Road, Tryleg ar 14 Tachwedd 2022.

Nodwyd y cafodd yr apêl ei gwrthod.

5.4. Little Cider Mill Barn, Heol Tre-Herbert, Croesyceiliog, Cwmbran.

Cafwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n cyfeirio at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Little Cider Mill Barn, Heol Tre-Herbert, Croesyceiliog, Cwmbran ar 14 Tachwedd 2022.

Apêl A

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl, y cadarnhawyd yr hysbysiad gorfodaeth ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar y cais y barnwyd iddo gael ei wneud dan n adran 177(5) Deddf 990 (fel y'i diwygiwyd).

Apêl B

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.